



COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD Y GORFFORAETH

1 Awst 2021 -

31 Gorffennaf 2022





1. RHAGYMDRODD

- 1.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi gan y Swyddog Llywodraethu, sef Clerc Bwrdd y Gorfforaeth. Mae'n ymwneud â'r flwyddyn academiaidd 1 Awst 2021 i 31 Gorffennaf 2022.
- 1.2 Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Bwrdd y Gorfforaeth yn gweithredu'n unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a Rheolau Sefydlog Coleg Sir Benfro. Mabwysiadodd Bwrdd y Gorfforaeth y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru yn 2016. Mae'r Bwrdd yn parhau i ymdrechu i fodloni a rhagori ar ofynion y Cod.

2. CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL

- 2.1 Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac yn unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a'r Rheolau Sefydlog a Chylch Gorchwyl ar gyfer Coleg Sir Benfro.
- 2.2 Amlinellir aelodaeth Bwrdd y Gorfforaeth ar gyfer 2021/22 isod:
 - Pennaeth
 - 2 Aelod o Staff
 - 2 Aelod o Fyfirwyr
 - 3 Aelod Awdurdod Lleol
 - Hyd at 12 Aelod Annibynnol - i gynnwys o leiaf un aelod sy'n cynrychioli cyflogwyr lleol neu fusnesau lleol
 - 1 Sylwedydd (gyda hawliau siarad ond nid pleidleisio)- Llywydd Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro
- 2.3 Mae rheolau sefydlog y Bwrdd yn caniatáu hyd at 20 Aelod Bwrdd. Mae aelodaeth y Corff Llywodraethol ar 31 Gorffennaf 2022 ynghlwm fel Atodiad A.
- 2.4 Yn ogystal â hyn, mae un Aelod Pwyllgor Cyfetholedig Addysg Uwch ar y Pwyllgor Ansawdd a Safonau.
- 2.5 Mae aelodaeth Pwyllgor y Ganolfan Lefel A yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Coleg, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion heb chweched dosbarth y mae eu dysgwyr yn trosglwyddo i'r Coleg.
- 2.6 Catherine Freeman yw Swyddog Llywodraethu/Clerc Bwrdd y Gorfforaeth. Roedd Catherine ar absenoldeb mamolaeth o fis Hydref 2021 a phenodwyd Lucy Clark yn Swyddog Llywodraethu dros dro yn ei habsenoldeb.



3. NEWIDIADAU I AELODAETH

- 3.1 Ar ddiwedd 2021/22, roedd 14 Aelod Bwrdd ar Fwrdd y Gorfforaeth. Roedd y Myfyrwyr Lywodraethwyr wedi gorffen eu tymor yn y swydd ym mis Mehefin 2022. Roedd hyd at 2 swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, 1 swydd wag Aelod Awdurdod Lleol a swydd wag Llywodraethwyr Staff. Yn dilyn y prosesau etholiad priodol, penodwyd 2 fyfyrwr lywodraethwr newydd a staff-lywodraethwr ym mis Gorffennaf 2022 i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Penodwyd un Aelod Bwrdd Annibynnol ac 1 Aelod Bwrdd Awdurdod Lleol hefyd i baratoi ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2022/23.
- 3.2 Penodwyd yr Aelodau Bwrdd a canlynol yn ystod 2021/22:
- Lisa Gostling- Aelod Bwrdd Annibynnol
 - Sarah Rowland Jones – Aelod Bwrdd Annibynnol
 - 2 Fyfyrwr Lywodraethwyr
- 3.3 Gadawodd yr Aelodau Bwrdd a canlynol y Bwrdd yn 2021/22:
- Ava Thomas a Tomos Davies (Cyfnod y Myfyrwyr Lywodraethwyr yn dod i ben 30/06/2022)
 - Sue Leonard – Aelod Bwrdd Annibynnol (Hydref 2021)
 - Steven Evans – Llywodraethwr Staff (Ebrill 2022)
 - Cris Tomos- Aelod Bwrdd Awdurdod Lleol (Mai 2022- oherwydd na chafodd ei ailethol yn yr etholiadau Llywodraeth Leol)
 - Caroline Oakley – Aelod Bwrdd Annibynnol (Gorffennaf 2022)
- 3.4 Cymerodd dau Aelod Bwrdd gyfnod o absenoldeb o'r Bwrdd am gyfnod byr. Louise Wilkinson o fis Hydref 2021 tan fis Ionawr 2022 a Caroline Oakley rhwng Mai 2022 a Gorffennaf 2022.
- 3.5 Gwiriwyd cymhwysedd holl Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2021/22 o fewn paramedrau'r Offeryn a'r Erthyglau. Mae holl Aelodau'r Bwrdd yn cwblhau datganiad blynyddol i gadarnhau eu cymhwysedd parhaus.

4. COFRESTR O FUDDIANNAU AELODAU'R BWRDD AC UWCH REOLWYR

- 4.1 Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd lenwi ffurflen Datgan Diddordeb pan gânt eu penodi. Yn ogystal, gofynnir i Aelodau'r Bwrdd, Uwch Reolwyr a'r Swyddog Llywodraethu ddiweddarau eu ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb yn flynyddol. Cedwir y Gofrestr Buddiannau gan y Swyddog Llywodraethu ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.
- 4.2 Mae datganiadau o fuddiant a wneir yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio yn flynyddol.
- 4.3 Cedwir Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch gan y Swyddog Llywodraethu ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Caiff y Gofrestr ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn.

5. TALIADAU I AELODAU

- 5.1 Nid oes unrhyw daliadau, ac eithrio treuliau cymwys a gafwyd, wedi'u gwneud i Aelodau a oedd yn eu talu am eu gwasanaethau fel Aelodau o Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'r Pennaeth yn gyflogedig ac mae Staff Lywodraethwyr yn derbyn tâl am eu swyddi fel staff y Gorfforaeth yn unig.



6. HYSBYSIAD O DDYFARNU CONTRACTAU I AELODAU

- 6.1 Yn ystod y flwyddyn academiaidd, dyfarnwyd nifer o gontractau i sefydliadau yr oedd Aelodau'r Bwrdd yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â hwy. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gall fod gan Aelod o'r Bwrdd fuddiant ynddynt hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol y Coleg.
- 6.2 Gwnaeth y Coleg y trafodion canlynol gyda sefydliadau yr oedd gan Aelod o Fwrdd y Gorfforaeth fuddiant ynddynt:

	Gwerthiannau i barti cysylltiedig		Pryniannau gan barti cysylltiedig		Balansau (sy'n ddyledus)/ sy'n ddyledus erbyn diwedd y flwyddyn	
	2022 £'000	2021 £'000	2022 £'000	2021 £'000	2022 £'000	2021 £'000
Manylion parti cysylltiedig						
Cyngor Sir Penfro	513	520	562	625	284	(124)
Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau	4	-	93	98	(2)	(2)

7. CADEIRYDD

- 7.1 Penodwyd Iwan Thomas yn Gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth ar 1 Awst 2021 ac mae wedi parhau yn y rôl hon drwy gydol 2021/22.
- 7.2 Penodwyd Dylan Harries yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2020 ac mae'n parhau yn y rôl hon.
- 7.3 Cafodd digwyddiadau adroddadwy eu hystyried gan Fwrdd y Gorfforaeth a'r Pwyllgor Archwilio a'u hadrodd i Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

8. LLYWODRAETHWYR CYSWLLT

- 8.1 Mae'r Coleg wedi bod â Chynllun Llywodraethwyr Cyswllt ers nifer o flynyddoedd. Mae Llywodraethwyr Cyswllt yn chwarae rhan arwyddocaol wrth ddatblygu effeithiolrwydd y Corff Llywodraethol ac wrth godi safonau'r Coleg. Mae'r cynllun yn cynorthwyo Llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o wahanol feysydd y Coleg ac mae'r Coleg yn elwa o'u harbenigedd, eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn rôl ymgynghorol a chymorth.
- 8.2 Y Llywodraethwyr Cyswllt ar gyfer 2021/22 oedd:
- Dysgwyr – John Gammon
 - Diogelu – Caroline Oakley (tan fis Gorffennaf 2022)
 - Cydymffurfiaeth – Jon Haswell
 - Profiad Staff ac Adnoddau- Graham Morgan
 - Datblygu Busnes – Andy Jones
 - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Gymraeg – Cris Tomos (hyd at fis Mai 2022)
 - Amgylchedd – Iwan Thomas
 - Prosiect Band B – Andrew Phillips
- 8.3 Mae Llywodraethwyr Cyswllt newydd ar gyfer Diogelu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg wedi'u penodi i baratoi ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23.
- 8.4 Mae gwaith y Llywodraethwyr Cyswllt yn cynnwys cyfarfod â staff perthnasol a mynychu cyfarfodydd lle bo'n briodol, fel y Panel Diogelu, Llais y Dysgwr, Pwyllgorau Rheoli Risg a'r Amgylchedd. Roedd enghreifftiau ychwanegol o waith y Llywodraethwyr Cyswllt yn cynnwys y Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Prosiect Band B yn rhoi cymorth ac arweiniad i Reolwyr y Coleg wrth symud prosiectau yn eu blaenau.
- 8.5 Mae gwerth y rolau hyn yn cael ei gydnabod gan y Bwrdd, y Tîm Arwain a'r staff dan sylw. Bydd gwaith y Llywodraethwyr Cyswllt yn parhau yn ystod 2022/23 a manteisir ar gyfleoedd pellach i ddatblygu.

9. CYFARFODYDD Y BWRDD CORFFORAETHOL

- 9.1 Yn unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu, mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor ac yn cynnal unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n angenrheidiol. Yn ystod 2021/22, cyfarfu Bwrdd y Gorfforaeth 6 gwaith ar y dyddiadau canlynol:
- 19 Hydref 2021
 - 7 Rhagfyr 2021
 - 8 Chwefror 2022
 - 29 Mawrth 2022
 - 10 Mai 2022
 - 12 Gorffennaf 2022
- 9.2 Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o Fwrdd y Gorfforaeth a'i Bwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfodydd hybrid, gan roi'r dewis i Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau ymuno â chyfarfodydd yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Mewn rhai achosion, roedd cyfarfodydd yn gwbl rithwir pan oedd yn gweddu i aelodau'r Pwyllgor neu roedd achosion o Covid-19 yn codi'n sylweddol yn yr ardal.
- 9.3 Roedd presenoldeb cyfartalog cyffredinol Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth a'i Bwyllgorau yn 79% yn 2021/22, o gymharu â 76% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd presenoldeb ar Fwrdd y Gorfforaeth yn 80%, o gymharu â 72% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r Pwyllgor Chwilio a Chydnabyddiaeth yn monitro presenoldeb bob chwe mis ac mae camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â hynny ar gyfer unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Mae'r dewis o fynychu cyfarfodydd rhithwir wedi gwella presenoldeb, gan fod yr hyblygrwydd yn cynorthwyo Aelodau'r Bwrdd sydd ag ymrwymïadau eraill.
- 9.4 Mae'r Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Fwrdd y Gorfforaeth yn flynyddol. Ar ddechrau 2021/22, cymeradwywyd fersiwn wedi'i hailwampio o'r Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl yn lle'r Model Llywodraethu Corfforaethol a'r Fframwaith Llywodraethu. Mae'r ddogfen yn symlach ac yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol mewn un ddogfen.
- 9.5 Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn derbyn adroddiadau ariannol o leiaf unwaith y tymor. Cyflwynwyd y Strategaeth a Chyllideb Cynllunio Ariannol ar gyfer 2022/23 i'r Bwrdd a'u cymeradwyo ganddo ar 12 Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd dadansoddiad sensitifrwydd hefyd i ddangos effaith gwahanol senarios ar feysydd ariannol allweddol y Coleg.
- 9.6 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau blynyddol ar Ddiogelu, Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol, Chwythu'r Chwiban, Rhyddid Gwybodaeth a Safonau'r Gymraeg. Mae Bwrdd y Gorfforaeth hefyd yn derbyn adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r amcanion yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Coleg Sir Benfro ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Coleg.

10. PWYLLGORAU

10.1 Fel sy'n ofynnol gan yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu, mae Pwyllgor Chwilio a Chydnabyddiaeth a Phwyllgor Archwilio. Trefnir cyfarfodydd y Pwyllgor Chwilio a Chydnabyddiaeth bob hanner tymor a chynhelir cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Cyfarfu'r Pwyllgor 6 gwaith yn ystod 2021/22. Yn unol â'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru, mae'r Pwyllgor yn llunio adroddiad blynyddol i'r Bwrdd.

10.2 Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio 4 gwaith yn ystod 2021/22. Mae'n cyfarfod unwaith y tymor ynghyd â chyfarfod cyflwyno cyfrifon. Fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'w ystyried a'i gymeradwyo gan Fwrdd y Gorfforaeth a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

10.3 Pwyllgorau eraill Bwrdd y Gorfforaeth yw: Pwyllgor Ansawdd a Safonau a Phwyllgor y Ganolfan Lefel-A. Mae'r Pwyllgorau hyn fel arfer yn cyfarfod bob tymor. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'i bwyllgorau gynhyrchu adroddiad blynyddol, sydd wedi'i gwblhau ar gyfer 2021/22. Mae'r Adroddiadau Blynyddol ar gael ar wefan y Coleg.

10.4 Ffurfiwyd Fforwm Ymgynghorol Coleg Sir Benfro (PCAF) yn 2014. Mae'n gweithredu fel corff cynghori ac ymgynghorol i Fwrdd y Gorfforaeth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r busnesau lleol a'r sector cymunedol. Mae gan Llywydd PCAF statws sylwedydd ar y Bwrdd ac mae'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar farn y Fforwm ac yn cyflwyno negeseuon allweddol i'r Fforwm. Mae rôl y Llywydd fel cyfrwng cyfathrebu dwy ffordd yn sicrhau bod ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob tymor.



11. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AELODAU'R BWRDD

- 11.1 Mae Aelodau Bwrdd sydd newydd eu penodi yn cael hyfforddiant sefydlu ac yn cael eu cyfeirio at ddogfennau allweddol, fel yr Offeryn ac Erthyglau, y Rheolau Sefydlog, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ariannol a'r Cod Llywodraethu Da. Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael ar Safle'r Tîm Llywodraethwyr a darperir copïau caled ar gais. Yn ogystal, mae Aelodau newydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn Rhaglen Sefydlu Ariannol.
- 11.2 Mae rhaglen hyfforddi ar waith ar gyfer Aelodau Bwrdd y Gorfforaeth sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol a dewisol. Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd gwblhau'r hyfforddiant gorfodol o fewn cyfnod rhesymol o amser. Darperir hyfforddiant a sesiynau briffio ychwanegol i Aelodau'r Bwrdd yn ôl yr angen. Yn ystod 2021/22, gwahoddwyd Aelodau'r Bwrdd i gael mynediad i sesiynau ar-lein mewn perthynas â Diogelu Arfer Gorau, Cyllid a Thwyll y Gadwyn Gyflenwi. Cafodd Bwrdd y Gorfforaeth hefyd sesiwn friffio ar gynnydd o ran gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol (Cymru).
- 11.3 Mae Aelodau'r Bwrdd yn gweld eu papurau a gwybodaeth berthnasol arall trwy wefan tîm ar-lein. Mae'r wefan yn darparu siop un stop ddiogel ar gyfer dogfennau a gwybodaeth i Aelodau'r Bwrdd gael mynediad iddynt.
- 11.4 Gwahoddir Aelodau'r Bwrdd i ddigwyddiadau'r Coleg a'u mynychu, fel y Seremoni Raddio, nosweithiau gwobrwyo a chynadleddau. Ychydig o ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Roedd Aelodau'r Bwrdd yn falch o weld digwyddiadau'n dechrau cael eu cynnal eto yn ystod 2021/22.
- 11.5 Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad hunanasesu o Fwrdd y Gorfforaeth yn ystod haf 2022. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar arolwg o Aelodau'r Bwrdd a gwaith dilynol un i un yn ôl yr angen. Bydd canlyniadau ac argymhellion yr adolygiad yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gorfforaeth yn ystod 2022/23, a bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu. Bydd y cynllun gweithredu yn ymgorffori unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill o adolygiadau blaenorol. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ei fonitro gan y Bwrdd bob chwe mis.
- 11.6 Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn adolygu elfennau o Lywodraethu yn flynyddol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol. Mae meysydd adolygu yn cynnwys Rheoli Perfformiad, Cynllunio Strategol ac Effeithiolrwydd y Bwrdd ar raglen dreigl.

12. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD Y SWYDDOG LLYWODRAETHU

12.1 Ymgwyrodd y Swyddog Llywodraethu â'r hyfforddiant a datblygiad canlynol yn ystod 2021/22 (fel y nodwyd, bu ar absenoldeb mamolaeth am y rhan fwyaf o'r flwyddyn):

- Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Rhwydwaith Llywodraethu AB
- Cyrsiau ar-lein Safety Media mewn Diogelwch Gwybodaeth

13. MATERION PERTHNASOL ERAILL NEU CAMAU GWEITHREDU SYLWEDDOL

13.1 Yn ogystal â materion arferol ac eitemau sefydlog, roedd rhai o'r eitemau allweddol a ystyriwyd gan Fwrdd y Gorfforaeth yn cynnwys:

- Diweddariadau Prosiectau Band B a phenderfyniadau ar gyfeiriad a chyllid ar gyfer prosiectau
- Parhaodd adferiad pandemig y Coronafeirws i gael effaith ar weithrediad y Coleg yn ystod 2021/22. Mae diweddariad ar effaith y pandemig a'r camau a gymerwyd gan y Coleg wedi'u hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd
- Cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl newydd
- Diweddariadau ar weithredu'r contract WBL5 newydd
- Sefydliadau Prifysgolion Technegol
- Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf
- Cyng rhair Strategol Coleg Sir Gâr

13.2 Mae'r Bwrdd wedi ystyried rhai materion pwysig yn ystod 2021/22 gan arwain at rai penderfyniadau allweddol. Cefnogir y Bwrdd gan ei Bwyllgorau, y Tîm Arwain a'r Swyddog Llywodraethu. Bydd y Bwrdd yn parhau â'i drosolwg strategol o fusnes craidd y Coleg ac yn darparu craffu a herio effeithiol yn ystod 2022/23. Rhoddir sylw i unrhyw feysydd i'w datblygu yn ôl yr angen.

13.3 Dau fater allweddol a graffwyd gan y Bwrdd oedd:

- Sefydliadau Prifysgolion Technegol – dull partneriaeth o ddatblygu a chyflwyno addysg uwch dechnegol gymhwysol trwy strwythur cydweithredol.
- Cyng rhair Strategol gyda Choleg Sir Gâr - sefydlu Gweithred Gymdeithasol rhwng y ddau goleg gan greu fframwaith ar gyfer cydweithio. Bydd y Colegau'n gweithio gyda'i gilydd i fwrw ymlaen â'r weledigaeth strategol ar gyfer creu cyng rhair colegau newydd, cyflawni newidiadau trawsnewidiol yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a sefydlu llwyfan cryf ar gyfer datblygiadau cydweithredol posibl yn y dyfodol.

13.4 Cwblhawyd rhai prosiectau cyfalaf mawr yn ystod 2021/22, gan gynnwys yr Adeilad Peirianeg newydd, y Ganolfan Sgiliau Byw'n Annibynnol newydd yn Llwynhelyg, y Ganolfan Asesu Plymio ac ehangu'r ardal gweithdy trydanol. Bu'r Bwrdd yn monitro cynnydd y prosiectau hyn yn ystod y flwyddyn. Lle'r oedd angen, darparodd y Bwrdd ganllawiau a gwnaeth benderfyniadau ar faterion allweddol i sicrhau bod y canlyniad terfynol yn addas i'r diben ar gyfer carfannau gwahanol o ddysgwyr.

14. EITEMAU ALLWEDDOL I'R BWRDD AR GYFER 2022/23

- 14.1 Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro effaith Pandemig Coronafeirws ac yn cefnogi ac yn cyfarwyddo Rheolwyr y Coleg yn ôl yr angen.
- 14.2 Mae datblygiadau mewn ffrydiau incwm amgen a gweithgareddau masnachol yn parhau ar agenda'r Bwrdd.
- 14.3 Monitro cynnydd y Gynghrair Strategol gyda Choleg Sir Gâr a Sefydliadau Prifysgolion Technegol.
- 14.4 Adolygu a diweddarau Cynllun Strategol a Strategaeth Ystadau'r Coleg.
- 14.5 Effaith costau byw cynyddol ar ddysgwyr a staff.
- 14.6 Mae'r Bwrdd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gryfhau llais dysgwyr a staff ac mae camau eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn.
- 14.7 Mae Aelodau'r Bwrdd wedi nodi oherwydd cyfyngiadau'r pandemig Coronafeirws nad ydynt wedi cael yr un cyfleoedd i ddod i adnabod ei gilydd. Bydd digwyddiadau'n cael eu trefnu yn ystod 2022/23 i Aelodau'r Bwrdd ddatblygu perthnasoedd a chydabod sgiliau a phrofiad ei gilydd.
- 14.8 Mae cynllunio olyniaeth ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a rolau allweddol yn parhau i fod ar agenda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Chwilio a Chydnabyddiaeth.



15. DATGANIAD O SICRWYDD

- 15.1 Mae annibyniaeth y Swyddog Llywodraethu (a'r Swyddog Llywodraethu dros dro) wedi'i chynnal yn addas yn ystod 2021/22.
- 15.2 Mae'r Swyddog Llywodraethu yn cadarnhau, cyn belled ag y gellir disgwyl yn rhesymol iddi fod yn ymwybodol, fod holl weithgareddau'r Gorfforaeth yn ystod y flwyddyn 2021/22 wedi cydymffurfio â gofynion Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Sir Benfro a'i Reolau Sefydlog a Cylch Gorchwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgwyliadau'r Cod Llywodraethu Da yng Nghymru hefyd wedi'u bodloni.
- 15.3 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Corff Llywodraethol ar 6 Rhagfyr 2022 ac fe'i cymeradwywyd.

.....
Catherine Freeman
Swyddog Llywodraethu
Rhagfyr 2022

.....
Iwan Thomas
Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth
Rhagfyr 2022